

# Y cyflwr cudd sy'n lladd yn y groth

Mae angen tynnu sylw at gyflwr gwaed prin sy'n gallu effeithio ar faban yn y groth, yn ôl mam o ardal Bangor...

Dyddiau wedi iddi eni ei phlentyn cyntaf, roedd Nia Llywd Lewis yn gorfod dal ei babi bach yn llonydd wrth i ddoctoriaid geisio achub ei bywyd.

Roedd y meddygon yn chwilio am wythien er mwyn bwydo celloedd gwaed 'platennau' i gorff ei merch fach, Elain.

"Roedd o'n uffern o beth... yn andros o deimlad. Babi cyntaf i fi. Doedd gen i ddim syniad be' oedd yn digwydd," cofia'r fam.

Bum mlynedd yn ôl, cafodd Elain ei geni gyda chyflwr prin iawn o'r enw *Neonatal Alloimmune Thrombocytopenia* (NAIT). Yn syml, roedd y ferch fach wedi ei geni gyda lefel peryglus o isel o'r celloedd 'platennau' yn ei gwaed.

Dyma'r celloedd sy'n atal gwaedu yn y corff, ac os oes prinder 'platennau' yng ngwaed y babi fe all niweidio'r ymennydd, yr abdomen a'r asgwrn cefn... neu arwain at farwolaeth.

Mae'r babis sy'n diodde' o NAIT mewn perygl dybryd tra yn y groth ac am gyfnod ar ôl cael eu geni, oherwydd fod gwaed eu mamau yn cynnwys 'antigenau' negatif dwbl sy'n ymosod ar y 'platennau' yng ngwaed y plentyn.

A hithau ddim ond yn dridiau oed, roedd angen i ferch Nia Lewis gael trallwysiad gwaed.

"Mi gymrodd hi dri chwarter awr i ffeindio gwythien ac roedd hynny'n ddychrynlyd, gorfod ei dal hi lawr iddyn nhw gael gwythien, a hithau'n sgrechian," cofia'r fam.

Roedd bechiogrwydd Nia Lewis wedi bod yn ddigon dedwydd, a phan gafodd Elain ei geni doedd dim arwydd bod unrhyw beth o'i le.

"Roedd hi'n berffaith iawn ar noson y geni," cofia'r fam, "ond y bore wedyn daeth y doctoriaid i weld y babi, fel maen nhw, ac o fewn awr roedd nyrs yn edrych arni eto. Roedd Elain wedi ei gorchuddio efo rywbeth tebyg i freckles piws.

"Roedd nhw'n meddwl mai rash oedd o, felly gafodd hi antibiotics."

Ond dros wythnos gyntaf ei bywyd, daeth i'r amlwg fod prinder 'platennau' yng ngwaed Elain a'i bod yn diodde' o NAIT.

Fel arfer mae lefelau 'platennau' babi newydd ei eni rhwng 150,000 a 400,000.

4,000 yn unig oedd lefel y 'platennau' ym merch fach Nia Lewis.

"Roedd Elain yn gorfod cael trallwysiad o blatennau oedd yn para tua pedair awr ar y tro, a rhyw chwech yn y mis i bump wythnos cynta," cofia'r fam.

"Babi bach newydd ei geni, ac roedden nhw'n gorfod ffeindio gwythien yn ei dwylo a'i thraed, a wedyn yn ei fferau."

Tra'n cario Elain doedd gan Nia Lewis ddim syniad bod yr 'antigenau' yn ei gwaed yn negatif dwbl, ac felly'n peryglu bywyd ei merch.

Mae'n sôn am ei phrofiad yn **Golwg** er mwyn tynnu sylw at beryglon y cyflwr, ac i bwysu am brofion darganfod NAIT ar famau beichiog.

"Os fasan nhw'n gwneud y prawf ar bob merch feichiog, fysan nhw'n medru dweud pwy sydd efo fo. Mae'n gyflwr enbyd sy'n gallu achosi parlys yr ymennydd, dallineb ac epilepsi."



Nia Lewis gyda' gwŷr Aled a'r plant Siôn ac Elain

## Elain yn dod at ei hun

Erbyn ei bod yn wyth wythnos oed fe ddechreuodd Elain wella wrth i lefel y 'platennau' yn ei gwaed godi yn naturiol yn sgil ei thriniaeth, ac o fewn tri mis roedd hi'n berffaith iawn.

Ac fe lwyddodd Nia Lewis i gael plentyn arall, a gan fod y doctoriaid yn gwybod am gyflwr ei gwaed roedden nhw'n medru datrys y broblem y tro hwn.

Tra'n feichiog gyda'i mab Siôn fe fyddai'r fam o Riwlaser Bangor, yn mynd i'r ysbyty lleol i gael trallwysiad oedd yn atal yr antigenau negatif dwbl rhag effeithio ar waed y babi yn ei chroth.

A phan ddaeth yr amser i'w eni fe gafodd y bychan enedigaeth Caesarean, er mwyn bod yn hollol saff.

"Os ydy babi yn cael genedigaeth naturiol efo platennau isel, ac os ydyn nhw'n defnyddio fforsseps, mae hynny'n gallu dinistrio eu hymennydd," eglura Nia Lewis.

Yn syml, bydd babi'n diodde' NAIT mewn perygl o waedu i farwolaeth os yw'r fforsseps yn ei ddirodi, oherwydd nad yw ei waed yn ceulo'n naturiol.

Cafodd Siôn ei eni gyda'i lefel 'platennau' yn 130,000 – llawer iawn yn uwch na'i chwaer – oherwydd y driniaeth i'w fam tra'n feichiog.

Bellach mae Elain yn bump oed a Siôn yn ddwy a hanner, ill dau yn hollol iach.

Ond mae Nia Lewis yn teimlo ei bod yn hynod lwcus na chafodd Elain unrhyw niwed parhaol.

Dros y blyneddau mae'r fam 33 oed sy'n Rheolwr Uned Iaith Cyngor Conwy wedi ymchwilio i'r cyflwr NAIT, ac wedi dod ar draws criw o famau sydd wedi bod trwy brofiadau tebyg ledled y byd.

Mae'r criw yma o famau yn pwysu ar yr awdurdodau i gyflwyno prawf ar ferched beichiog er mwyn gweld a ydyn nhw mewn perygl o wenwyno gwaed eu babis.

"Dw i ddim eisiau i neb fynd drwy be' dw i wedi bod drwyddo," meddai Nia Lewis, sy'n ddiolchgar nad yw ei merch yn diodde' o unrhyw gyflwr parhaol oherwydd yr

helbul pan gafodd ei geni.

"Rydwy i'n ystyried fy hun yn un o'r ychydig rai sydd wedi cael plentyn hollol iach."

I wybod mwy am ymgyrch Nia Lewis a'r mamau eraill ewch i <http://www.naitbabies.org> a gwyliwch y fideo ar <http://www.youtube.com/watch?v=BZtwMW4KPGM>

Barry Thomas

## Super Ted

Mae arth arbennig sydd ar ei ffordd i Ffrainc, Awstralia a Saudi Arabia eisoes wedi bod i Gymru i dynnu sylw at y cyflwr NAIT.

Aeth Tedi i Ysgol Gynradd Bethel lle mae Elain yn ddisgybl ac i Feithrinfa Ffalabalam ym Mangor lle mae Siôn yn cael ei warchod.

Bu hefyd yn Uned Gofal Arbennig i Fabanod a Ward Dydd Alaw yn Ysbyty Gwynedd.



Siôn ac Elain gyda'r tedi

# Tregaron y Apostol He

Mae trefnwyr digwyddiadau i nodi dau gan mlwyddiant geni un o feibion enwocaf Tregaron yn apelio am wybodaeth a thystiolaeth amdano.

Mae gan Dregaron gerflun o Henry Richard ar sgwâr y dref ers 1893, pum mlynedd wedi ei farwolaeth. Ond mae trigolion lleol wedi penderfynu ei bod hi'n bryd gwneud rhywbeth mwy i ddathlu cyfraniad y gwŷr i Gymru a thu hwnt ar drothwy ei 200 mlwyddiant.

"Mae pawb yn ymwybodol o'r cerflun," meddai Emyr Lloyd, un o'r trefnwyr, "ond beth r'yn ni eisiau yw bod pobol yn dod i wybod am yr hanes."

Roedd Henry Richard yn fab i weinidog a gafodd ei eni yn Nhregaron ar 3 Ebrill 1812. Dilynodd ei dad i'r weinidogaeth a chael ei ordeinio yn Llundain yn 1835.

Roedd gan y gwŷr o Dregaron egwyddorion heddychol cryf – roedd yn erbyn pob math o ryfel a thrais, ac yn wrthwynebydd i gaethwasiaeth – ac yn 1948 cafodd ei benodi'n Ysgrifennydd i'r Gymdeithas Heddwch, ac enill enw'n rhyngwladol fel yr 'Apostol Heddwch'.

Yn 1868, cafodd Henry Richard ei ethol yn Aelod Seneddol Rhyddfrydol dros Ferthyr Tudful, ac yn 1883 cafodd ei benodi'n Is-ganghellor cyntaf Prifysgol Caerdydd.

"Mae pwyllgor o thri ohonon ni wedi dod i drefnu digwyddiad amrywiol Henry Richard Emyr Lloyd, "ac r'yn ni dechrau ar y trefniad

## Casglu gwyb

Un o ddigwyddiadau dathliadau, sy'n cael yn ystod gwanwyn 2012 agor arddangosfa ar Richard yng Nghano Tregaron – ac at hwr pwyllgor yn apelio ar cyhoedd.

"R'yn ni'n gofyn i bobol chwilio adref am bopeth o hen ddogfennau i hen luniau, er mwyn i ni gael gafael ar fwy o wybodaeth amdano fe fel unigolyn," meddai'r trefnydd a churadur yr arddangosfa, Emyr Lloyd.

"Mae'n mynd i fod o waith casglu popet ond dw i'n ffyddiog 'na'n rhywle ar ein c' Mae'r pwyllgor eis help wrth ddarganfo wedi i Faer Merthyr etholaeth Henry Rich

